

Gair bach Bethlehem 14



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 14 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

BEICIO 12 AWR DROS ELUSEN



Nid pawb all aros i bedlo ar gefn beic "mynd i unlle" am 12 awr ar y gorau. Ond dyna benderfynodd Mark Eldridge ei wneud i godi arian at achos da.



Fel gwelwch uchod, roedd beic Mark wedi ei osod yn ei gartref yn yr Eglwys Newydd i gysylltu gyda system fesur "ar-lein" i gofnodi ei weithgaredd seiclo. Drwy drefn ar-lein "Zwift" roedd y 12 awr yn cynrychioli shifft arferol un o weithwyr y GIG ac roedd beic Mark wedi'i gysylltu â'r "app" fyddai'n mesur ei bŵer, cyflymder a'i bellter mewn byd rithiol. Mae e bellach wedi codi cryn dipyn dros ei darged o £1,000 ar gyfer Banc Bwyd Pontypridd. Dewisodd Mark yr elusen hon gan ei fod e'n athro yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac felly'n ymwybodol iawn o sut mae'r ardal wedi dioddef yn arw yn ddiweddar.

Yn ôl y cyfrifiadur, mae'n debyg iddo seiclo am 180 milltir

– o 7.00 y bore hyd 7.00 yr hwyr. Os dymunwch chwithau gefnogi ei gamp, yna dilynwch y linc: gf.me/u/x8n6p4

Ar y chwith uchod gwelir y teulu, Caryl (Pollard gynt), Osian a Gruffydd, yn ei longyfarch ar ddiwedd ei daith rithiol.

WRTH I BETHAU WELLA

Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi rhestr newydd o gyfarwyddiadau ar gyfer ail-agor addoldai – gyda'r rhagymadrodd nad ydy'r "canllawiau'n gosod dyletswydd neu ofyniad ar fannau addoli i ailagor ac ni fydd yn bosib iddyn nhw ail agor am gryn dipyn o amser eto." Mae yna restr faith o is-amodau i'w hystyried. Dyna destun un o drafodaethau'r diaconiaid yr wythnos nesaf, siŵr o fod, yn eu cyfarfod ar "Zoom".

Yn y cyfamser...

Bonws dwbl o ran **addoliad o hirbell i ni yr wythnos hon**. Mae gan y Pensaer, Alwyn Harding Jones, fyfyrddod ar ein cyfer yn y rhifyn hwn ar dudalennau 4 a 5. Ac yna mae ein dewin cyfrifiadurol, Wyn Jones, wedi darparu addoliad "Cawl eil-dwym" (geiriau Wyn!) ar YouTube. Cliciwch i fynd ato ar https://youtu.be/fW_iDAfOWbc i weld beth mae Wyn wedi ei roi ynghyd. (Mae hwn hefyd i'w gael ar y grŵp Facebook).



Cofiwch bod croeso i unrhyw un alw i mewn i'n gweld ni ar fore Sul am 10.30. Mae'r manylion cysylltu yr un fath bob tro:

<https://us04web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09>

ID: 714 6634 3537

Cyfrinair: Bethlehem

Heulwen Jones / 07779 360614

heulwen@btinternet.com

Bu'r plant yn darllen stori Dafydd a Goliath yr wythnos dwetha' ac fe gawson nhw lun i'w liwio a chwilair i'w gwblhau. Un o'r pethe da am y cyfnod Covid yma yw bod amser ar gael i chwilio'r We am syniadau ar gyfer gweithgareddau ac fe ffeindies i wefan oedd yn eich galluogi i greu chwilair eich hunan. Yn anffodus doedd dim modd gosod ein llythrennau arbennig ni yn y Gymraeg fel maen nhw i fod, ond rwy'n credu daeth y plant i ben a ffeindio'r rhan fwyaf o'r geiriau. I'r rhai nad oedd gyda ni dydd Sul falle hoffech chi drïo ffeindio'r geiriau eich hunan. *(gweler isod)*

Ar ôl sôn am dalent arbennig Dafydd gyda ffon daf, cawsom sgwrs ddiddorol am pa dalent arbennig oedd gan y plant. Mae Aaron a Trystan yn dda iawn am chwarae yn y gôl mewn pêl droed ac Ifan a Mabon yn chwaraewyr rygbi gwych – un yn y sgrym a'r llall ar yr asgell. Mae Sara a Gwenni yn gallu gwneud triciau ar y trampolîn, a Mabli yn wych am rhedeg yn gyflym. Gwaith celf yw talent arbennig Megan a'i chwaer Awen yn actor dalentog. Coginio yw talent Enfys ac y mae Luned yn dda iawn am chwarae'r piano.

Heulwen Jones

Chwilair Dafydd a Goliath

D	A	R	T	H	B	B	S	I	X	G	S
A	A	R	D	D	N	Y	U	B	T	A	W
F	S	J	G	E	B	B	D	G	T	Y	L
Y	T	M	G	L	F	R	Q	D	A	L	G
D	I	M	R	F	W	A	W	K	I	I	O
D	E	F	I	F	K	Y	I	Y	R	N	L
C	C	V	A	O	F	B	D	D	D	K	I
B	A	C	H	N	E	R	K	D	U	R	A
L	R	B	Y	D	C	E	M	A	W	R	T
L	R	T	X	A	A	N	M	A	N	Q	H
E	E	A	R	F	W	I	S	G	T	X	Q
W	G	V	T	L	R	N	P	Y	W	Q	D

ARFWISG CARREG

ARGLWYDD CAWR

ARTH DAFYDD

BACH DEFAID

BRENIN DUW

BRWYDR FFONDAFL

BUGAIL GOLIATH

BYDDIN IFANC

LLEW MAWR

COFIWCH O HYD AM FANC BWYD CAERDYDD

Rydyn ni eisoes wedi cyfeirio at gamp beicio Mark (tudalen1). Cofiwch hefyd am yr ymgyrch yn ninas Caerdydd. Fel rydyn ni wedi cyfeirio o'r blaen, bu'n anodd, os nad amhosibl, i rai aelodau Bethlehem gyfrannu nwyddau fel arfer at Fanc Bwyd Caerdydd.

Bellach, anfonwyd cyfraniad ariannol o'r newydd oddi wrth yr eglwys ym mis Mehefin, un tebyg o ran swm i un Ebrill. Efallai y byddwch yn awyddus i gyfrannu tuag at hynny, maes o law.

Mae modd i chi gyfrannu'n ariannol yn uniongyrchol yn hytrach na rhoi nwyddau. Gellir gwneud hynny trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y wefan isod:-

<https://localgiving.org/donation/cardifffoodbank>.

Gan gofio hyn:

- Gall £5 fod o gymorth i roi tanwydd yn y faniau sy'n trosglwyddo'r bwyd i'r canolfannau dosbarthu.
- Gall £10 fod o gymorth i gynnal dros 1000 o unigolion y mis sydd mewn angen (ac mae'r galw wedi bod ar gynnydd yn ddiweddar).
- Gall £20 fod o gymorth tuag at gostau'r warws sydd yn £1500 y mis.

Y dull uniongyrchol arall ydi drwy'r trolis sydd i'w cael yn yr archfarchnadoedd lleol:

- Asda'r Bae, Lecwydd, neu Pentwyn
- Co-op Treganna, Cathays neu Lanisien
- Morrison's Ffordd Casnewydd neu Tŷ Glas



- Sainsbury's Thornhill neu Colchester Ave
- Tesco Rhodfa'r Gorllewin, Croes Cwrlwys neu Llaneirwg
- Waitrose, Pontprennau.

Yn gyffredinol, dyma'r anghenion o wythnos i wythnos: Pwddin Sbwnj, Llaeth UHT, Sudd UHT, Sgwosh (poteli 1 litr), Reis (bagiau 500g neu 1kg), Pwddin reis tun, Cwstard tun, Tomatos tun, Jam, Ffrwythau tun, Llysiau tun, Cig tun.

Awydd anfon gair neu ddau i'r rhifyn nesaf o GbB?

Erbyn Gorff 1af:

tycnau@aol.com

Gair bach o'r Gwaelod

Cafwyd cyfraniad 'gwahanol' i'r arfer ar y rhaglen "The Food Programme" ar Radio 4 y Sul o'r blaen. Tyfu planhigion o hadau oedd y thema i'r holl rifyn. Roedden nhw wedi bod yn trafod y cwmnïau gwerthu hadau, y cynnydd yn eu prysurdeb dros gyfnod yr ynysu a phrinder hadau. Yna, tua'r diwedd, aed ati i holi hynafgwr yn ardal Bryste oedd yn brysur yn ei randir.

Mae Leon Walker yn tyfu popeth o hadau mae o wedi eu cadw – yn goed ceirios ac afalau, yn flodau a llysiau a hynny o randir roedd o wedi drawsnewid o fod yn dalp o concriid i fod yn ardd. Dywed Leon, sydd bellach dros ei bedwar ugain, ei fod yn ceisio trosglwyddo ei arbenigedd a'i frwdfrydedd i eraill – gwerthoedd ddysgwyd iddo'n blentyn wrth draed ei dad yn Jamaica. Roedd rhyfeddu at y grym ym mhob hedyn bach yn rhoi cryn foddhad iddo (yn ogystal â bwyd ar y ford) a hefyd y pleser o weld y gwenyn a'r adar yn chwarae eu rhan.

"Rydyn ni mor ddibynnol ar y pridd", meddai, "ond y mae'r wyrth sydd yn yr hedyn bach yn parhau i fy rhyfeddu. Pan roddwch chi hedyn yn y ddaear, allwch chi ddim ei orfodi i dyfu. Rydych chi'n gobeithio ac mae pobl yn anghofio y dylen ni fod yn ddiolchgar am harddwch gwyrthiau bywyd. Rhaid i chi gael yr un peth sylfaenol yna – y wyrth o fywyd. Dywed rhai mai'r 'Fam Natur' sydd tu ôl i'r cyfan. Ond rydw i'n dweud – *Duw'r Tad*."

Cofion, *Ifan*

Myfyrdod ar gyfer Oedfa'r Sul Alwyn Harding Jones, Ffynnon Taf Oes angen prawf arnoch chi?

Cwyn sydd i'w chlywed yn aml yn ystod y dyddiau dyrys yma ydy fod cymaint o'r wybodaeth a geir am Covid-19, ar y newyddion, y bwletinau dyddiol a'r gwefannau cymdeithasol, yn croes ddweud ei gilydd. Yr eithaf o'r rhain, siŵr o fod, ydy'r cyngor peryglus tu hwnt gafwyd gan yr Arlywydd Trump yn ein hannog i chwistrellu diheintydd i'n gwythiennau. Ac yn nes adref mae llawer a glywn gan lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i liwio er mwyn lliniaru'r gwir lanast mae'r pandemig yn ei greu ar yr ynys hon.



A faint o weithia' ydan ni wedi clywed yr adroddiad **'dilyn y wyddoniaeth'** yn ystod yr wythnosau diwetha'? *'Bydd dim rhyddhau ar y lockdown nes bydd prawf fod y rhif mesur faint sydd wedi'i heintio yn dod yn is nag R1.'* Dyna ddywed y **wyddoniaeth**. Ac mae chwilio am frechlyn yn sialens enfawr i labordai gwyddonol ar draws y byd. Tydi o'n dda o beth fod yr arbenigwyr gwyddonol yma ar gael? Heb eu cyngor hwy ni hoffwn feddwl ble bydden ni yn y frwydr yn erbyn y gelyn anweladwy 'ma sy'n lladd ar amrantiad.

'Test, test, test!' oedd cyngor Sefydliad Iechyd y Byd reit o'r dechrau. Heb **brofi** unigolion am y firws, a deall maint a lleoliad y broblem, sut yn y byd mae dechrau ei ymladd? **Profi, profi a mwy o brofi.**

Ond beth os baswn i'n rhoi'r un pren mesur, sef yr angen i **brofi**, ar ein crefydd?

Cymerwch funud a throwch at bennod gyntaf y Beibl a darllenwch 'Hanes y Creu'.

Darlleniad - Genesis 1: adnodau 1-8.

Yn ddi-os mae cilio cyffredinol wedi bod i ffwrdd o grefydd yn ystod yr hanner cant a mwy o flynyddoedd diwethaf. Mae'n debyg fod Cristnogaeth yn dod llai a llai perthnasol yn ein cymdeithas a'n diwylliant, sy'n mynd fwyfwy materol bob dydd. Ar yr un pryd mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn cymryd lle canolog ym mywydau pob un ohonom. D'oes 'mond angen gwranddo ar y bwletinau newyddion i glywed am y datblygiadau diweddaraf ym myd meddygaeth, seryddiaeth ac yn y blaen. Ac i ddod nes adref, pwy sydd heb logio mewn i *Zoom* i gael ymuno mewn sgwrs hefo'r teulu? Ac wrth reswm, gwych o beth ydy'r datblygiadau gwyddonol a thechnolegol yma. Diolch amdanynt.

Ond ydy'r **angen am brofi** pob peth cyn gallu ei dderbyn fel ffaith yn tanseilio crefydd, a'i wneud yn ddianghenraid yng ngolwg llawer? Wedi'r cyfan, mae dyn yn gwybod cymaint am y bydysawd... straeon i blant ydy'r ysgrythurau sy'n sôn am y Creu ... siŵr o fod ... a pha angen sydd am unrhyw **Fod** sy'n uwch na dyn? Ac yn rhyfeddol, mae'n bosib profi oed y byd erbyn hyn. Fe'i crëwyd tua phedwar biliwn a hanner o flynyddoedd nôl, mae'n debyg, er na welais dystysgrif geni yn dangos hynny. Ac mae sawl damcaniaeth gredadwy ar sut y ffurfiwyd ein planed yn y lle cyntaf. Yn ôl gwyddonwyr heddiw, y 'core accretion' a'r 'disk instability method' yw'r ddau ddigwyddiad mwyaf tebygol. Peidiwch â holi!

Gwyddoniaeth neu grefydd? Profi neu gredu drwy ffydd? A'i dyna'r unig ddewis? Oes raid cael gwrthdaro rhwng y ddau?

Oes, medda nhw. Yn ôl llawer i wyddonydd mae gwrthdaro yn anorfod (ac eithrio fy nghyfaill Peredur Evans, ein trysorydd, yn un!). Felly hefyd safiad sawl Cristion sy'n gogwyddo tuag at ffundamentaliaeth. Ond ydy' agweddau fel hyn yn rheoli dewis ac ymddygiad yr unigolyn, ac yn adeiladu rhwystr i lawer i ddilyn y ffydd Gristnogol? Ar y llaw arall ydy' o'n cadw ambell i Gristion i ffwrdd o gyffro gwyddoniaeth? I mi, fel rhywun fu'n frwd am bynciau gwyddonol yn fy ieuencid, cyn mynd 'mlaen i ddysgu a gweithio yn y byd pensaernïol, ble roedd 'awen' a 'theimlo' cyn bwysiced â ffeithiau wrth chwilio am ateb i broblem dylunio, mae'n berffaith bosibl i'r ddau fod cydnaws a'i gilydd.

Yn hytrach na gwrthbrofi, falle mai dechrau egluro ychydig am *sut* creodd Duw y byd a'r bydysawd mae'r ymchwil anhygoel sy'n mynd 'mlaen i ddarganfod a deall y sêr a'i phlanedau? Meddyliwch am y peth ... os mai damwain a hap oedd ffurfio'r blaned, mae angen rhywun neu rywbeth i achosi'r ddamwain yn y lle cyntaf. 'Tu ôl i'r dorth...' Roedd rhaid cael cynllunydd ar y bydysawd, y bydysawd sy'n tyfu yn fwy ac yn fwy drwy'r amser. Er bod Einstein yn disgrifio ei hun fel un oedd *'yn grefyddol heb unrhyw gred'*, roedd hyd yn oed y meddyliwr mawr hwn o'r farn fod trefn ... ac ôl llaw cynllunydd, i'w weld ar y bydysawd. (*i'r dudalen nesaf*)

Ydy'r gwyddonydd, athronydd neu grefyddwr sy'n meddwl y gall wneud mwy na chrafu wyneb y materion dyrys hyn yn twyllo'i hun? Neu fater o amser ydy cyn dod i ddeall y cyfan, a chael yr atebion i gyd? Na, nid oes deall ar y cyfan i fod. Mae'r hwn a'n creodd, sut bynnag ddigwyddodd hynny, yn fwy na dim medr dyn grebwyll byth. Wrth ddeall mwy a mwy ... rydym yn gweld fod yr hyn sydd ar ôl i'w ddeall yn tyfu'n fwy ac yn fwy ac yn fwy. Braidd fod yr emyn 'Mor fawr wyt ti' yn '*understatement*'!

Felly, oes angen **prawf gwyddonol** arnoch i gredu? Rhowch ddarn o gerddoriaeth sy'n bwysig i chi 'mlaen ar Spotify, neu gofynnwch i Alexa. Darn efallai sy'n eich tawelu, yn help i chi hel atgofion, neu yn eich cynhyrfu wrth wrando. 'Moonlight Sonata' Beethoven falle? Neu i ddod yn agosach adref, 'Benedictus' Karl Jenkins? Er mor wych yw'r rhain, fydd o ddim syndod i chi mai cerddoriaeth bur wahanol, fel arfer efo geiriau heriol, yn adlewyrchu bywyd go' iawn, sy'n mynd a'm bryd i. Ond awn ni ddim ar ôl hynny! Dewiswch chi, a gwrandewch.

A gymerodd y gerddoriaeth chi ffwrdd yn feddyliol a'ch tawelu am ychydig funudau? Do, gobeithio. Gadewch i ni geisio dadansoddi a phrofi gwerth y darn dewisedig. Sut mae mynd ati i wneud hynny? A'i poblogrwydd y darn sy'n ei wneud yn dda? A'i hyd y gwaith sy'n ei wneud yn arbennig? Trefn y nodau yn fathemategol gywrain falle?

Yn yr un modd, cymerwch estheteg y llygad. Sut mae profi gwerth llun enwoga'r byd, y 'Mona Lisa', gan Leonardo Da Vinci? Neu lun mymryn llai cyfarwydd fel 'Guernica' gan Picasso? Yn sicr fe'm symudwyd i lawer mwy o weld Guernica ym Madrid na wnaeth gweld y Mona Lisa yn y Louvre ym Mharis. A'i maint Guernica wnaeth fy symud? Neu'r hanes tu ôl i'r llun? Fy nghefnidir fel Cymro, a (rhyw fath) o heddychwyr falle? Neu ddychymyg rhyfeddol Picasso a'i waith llaw crefftus? Pwy a wŷr? Ond yn sicr fe'm symudwyd wrth sefyll o'i flaen a syllu am rai munudau.



Wrth reswm, nonsens yw ceisio profi gwerth absoliwt y pethau hyn. D'oes ddim ffordd profi pam fod y darn cerddoriaeth ddewisoch yn cael lle arbennig yn eich calon. Na pham fod un llun yn llawer mwy gwerthfawr yn ein llygad na llun arall. Ond rydan ni'n **gwybod heb brawf yn y byd** pa un sydd fwyaf arbennig a gwerthfawr yn ein profiad ni. D'oes dim dadl.

Yn yr un modd, d'oes ddim prawf am fodolaeth Duw. Ond rydan ni'n **gwybod** ei fod yn bod. Dyna i mi yw ffydd. Credu heb brawf yn y byd.

Felly, gadewch i ni chwalu'r syniad nad yw gwyddoniaeth a chrefydd yn gydnaws. Yn sicr, nid ffordd o brofi na gwrthbrofi bodolaeth y Bod Mawr yw e'. Ac i'r rhai fel fi, sy'n derbyn cysur a nerth gan Dduw o ddydd i ddydd, mae ffydd heb brawf yn hanfodol.

I orffen, hoffwn gymryd ychydig funudau i ddiolch yn dawel am yr holl fendithion rydyn ni'n eu derbyn, er yr amseroedd rhyfedd sydd ohoni. Ac i gofio dangos y diolchgarwch hwnnw bob amser trwy:

roi heb gyfri'r gost o roi
trwy ymdrechu heb ystyried y draul arnom
a thrwy weithio heb geisio gwobr.

Bethlehem ym 1984

RHESTR PLANT YSGOL SUL BETHLEHEM 16 MAI 1984

Martin Davies	<u>Fabanod</u>
Seth Edwards	Bethan Rees
Tara Roberts	Elen Huws
Gareth Williams	Catherine Blyth
Hywel Williams	Nia Williams
Richard Fuller	Nari Elin Osborne
Paul Fuller	Ifan Tudur
Graham Davies	Elen Mair Evans
Nathan Oehler	Gwern Jones
Kate Davies	Rhiannon Gray
Sian Williams	Marged Haf Jones
Rhian Jones	Dyfir Davies
Lowri Clement	Seraint Jones
Gareth Rosser	Nerys Pollard
Anna Davies	Aled Rees
Luned Clement	Alun Evans
Sara Evans	
Laura Evans	
Lois Jones	
Bethan Clement	
Gwynn Huws	
Sian Rosser	
Iolo Evans	
Rhodri Llywelyn	
Gareth Williams	
Sion Tudur	
David Evans	
Rebecca Taylor	
Sara Taylor	
Aled Huws	
Aled Lleyshon	
Nia Lleyshon	
Gwion Rhys	
Pfion Tudur	
Huw Gray	
Elin Davies	

Yn rhifyn 6 o "Gair bach Bethlehem" cynhwyswyd rhestr aelodaeth Bethlehem fel yr oedd ym mis Mai 1981.

Ymddengys bod hynny wedi bod o gryn ddi-ddordeb i chwi'r darllenwyr, gan ysgogi holi am hynt a helynt ambell enw a ymddangosai ar y rhestr, ac yn wir holi hefyd am rai o'r enwau nad oedd arni, yn enwedig os oedd un aelod o deulu wedi ei gynnwys (holwch eich gilydd am bwy tybed yr ydwi'n sôn)!

Dyma felly fentro ar rannu mwy o wybodaeth tebyg a chi, a'r tro hwn, rhestr o enwau'r plant oedd yn mynychu'r ysgol Sul, neu'n fabanod ar 16 Mai 1984.

Felly gwaith mwy o holi a stilio - lle mae 'nhw bellach; pwy oedd hwn a llall; oes cyswllt teuluol a'r capel o gwbl erbyn hyn ac yn y blaen.

Yn ddi-ddorol ddigon, ynghanol yr un swp o bapur, 'roedd yna arolwg byr (22 Mai 1984), wedi ei wneud gan y Parchedig Rhys Tudur ychydig cyn iddo symud i'r Bala i weinidogaethu, yn cymharu rhai ystadegau am yr aelodaeth rhwng 1974 ac 1984. (I'w gweld ar y dudalen nesaf.)

Eto dyma gyfle i chi godi sgwrs am y cyfnod hwnnw o sicrhau'r sylfaen gref i'r Bethlehem presennol yr ydym ni mor falch ohono heddiw.

Mwynhewch y dadansoddi a'r datgymalu – serch ein bod mewn cyfnod digyffelyb, digynsail, dan warchae'r "Gofid" mawr o hyd!

Dirgelwch y Clown ym Methlehem!

Ynghanol mân bapurach a fenthyciwyd gan Elin Tudur, gwraig ein cyn-weinidog, y Parchedig Rhys Tudur, 'roedd 'na boster o faint A3, yn hysbysebu "Ffair Hydref", oedd i'w chynnal ym Methlehem ar y 27ain o Fedi 1980.

Bwriad y Ffair oedd creu elw er budd "Cronfa'r Ffestri" a hynny yn ei dro yn arwain at ail-wampio'r adeilad ac hefyd adeiladu'r gegin sydd gennym at ein defnydd heddiw.

Mae'r poster yn gwahodd pawb i brynu o amrywiol stondinau yn cynnwys teisennau, gwau a gwnïo, planhigion a gardd, llyfrau a theganau, ac wrth reswm standin fwyd (paned a chacen siŵr o fod?).

Crybwyllir yn ogystal standin "Eliffant Gwyn – Y Clown"!

Fe welwch yma lun o'r poster arbennig hwnnw, ac oes ar fy ngwir, mae 'na lun clown arno, sy'n annog pawb i ddod "...nid i'r syrcais ond (i'r) Ffair Hydref".

Pwy fu'n gyfrifol am lunio'r poster tybed, a mwy na hynny beth oedd arwyddocâd y clown yn y Ffair?

Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach ydi'r clown yn ein plith o hyd? Os oes 'na rhywun ac atgofion am y digwyddiad ei hun, neu am arddel adnabyddiaeth o'r clown, yna rhannwch eich stori a Gair bach Bethlehem!

(Parhad ar y dudalen nesaf)



Bethlehem ym 1984

Dyma'r arolwg byr (22 Mai 1984), wedi ei wneud gan y diweddar Barchedig Rhys Tudur ychydig cyn iddo symud i'r Bala i weinidogaethu – am aelodaeth Bethlehem:

RHAI YSTADEGAU AM EGLWYS BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH 22 MAI 1984

Rhif yr aelodau ddiwedd Mawrth 1974 yn 64..

18 ohonynt oedd yn gweithio sef ychydig dros chwarter yrgaelodau

Rhif y plant ar lyfrau'r Eglwys oedd 27

5 ohonynt yn blant i aelodau, 10 ohonynt yn ddi-Gymraeg

Rhyw 20 oedd yn dod i wasanaeth y bore a 40 i wasanaeth yr hwyr

Doedd neb yn dweud adnod a prin oedd y plant yn y gwasanaeth bore.

Yr oedd 8 o ddiaconiaid

Roedd 1/2 yr aelodau yn dod o bentref Gwaelod-y-Garth, sef 32

Rhwng diwedd Mawrth 74 a dechrau Mai 84 derbyniwyd 66 aelod newydd

2/3 ohonynt yn dod o eglwysi eraill

O'r 66 aelod newydd mae 59 ohonynt yn aros.

Yn ystod yr un cyfnod bu farw 16 ac ymadawodd 12

Rhif y plant ar lyfrau'r Eglwys 54 ac y mae 42 ohonynt yn blant i aelodau

O'r 100 o aelodau presennol nid ydym wedi gweld 7 ohonynt yn y chapel yn

ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae eraill sy'n anabl i ddod ond nid ydynt

yn cael eu cyfrif gyda'r 7.

O'r aelodau presennol y mae 73 ohonynt yn gweithio sef yn agos i'w 3/4

41 o'r aelodau yn 1974 sydd ar ol.

Derbyniwyd 8 diacon newydd

Cweinyddwyd 39 o fedyddiadau a 27 o briodasau

~~MAE 1/5 O'R AELODAU SY'N DOD O GWAELOD-Y-GARTH SEF 13 O'R AELODAU~~

1/5 o'r aelodau sy'n dod o Waelod-y-Garth erbyn hyn.

Rhifau'r aelodau o wahanol ardaloedd:-

	1974	1984
Gwaelod-y-Garth	33	21
Pfynnon Taf	5	10
Radur	3	16
Tongwynlais	2	2
Pentyrch	18	16
Creigiau	2	6
Gaerdydd	15	20
Lleoedd eraill	1	9

Hiwmor o'r cwrdd

Pregethwr yn deffro cynulleidfa gysglyd trwy ddweud "Cofio bod yn mreichiau gwraig dyn arall. Mam oedd hi." Yr Esgob anghofus yn dwyn y syniad "Cofio bod ym mreichiau gwraig dyn arall ... ond fedra i ddim cofio gwraig pwy oedd hi."

~*~*~*~*~

Pregethwr: "Fy nyletswydd i yw pregethu. Eich dyletswydd chi yw gwranddo. Os byddwch chi wedi gorffen eich dyletswydd o mlaen i, peidiwch â gwneud sŵn."

~*~*~*~*~

“Y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos”



Groeg oedd iaith yr Efengylau. Εὐαγγέλιον κατὰ Μάρκον – Yr Efengyl yn ôl Marc. Y cynharaf o'r pedair Efengyl, yn ôl barn y mwyafrif o ysgolheigion y dyddiau hyn. Mae rhai'n ffafrio Mathew, a dyna gred yr eglwys am ganrifoedd lawer. Cyflwyno “efengyl” mae'r awdur, hynny yw, “newyddion da”. Bywyd, gwaith a neges Iesu yw'r newyddion da.



Ni ellir dweud i sicrwydd pwy oedd Marc. Yn ôl hen draddodiad sy'n tarddu o'r ail ganrif, roedd yn “ddechonglwr” yr apostol Pedr, yn ysgrifennu yn Rhufain ar ôl i Pedr farw, a Pedr oedd prif ffynhonnell ei ddeunydd.

Mae yna ysgolheigion heddiw sy'n dadlau yn erbyn hynny! Ond o dderbyn y traddodiad, Marc yw'r un a elwir yn Ioan yn Actau 12:12,25; 13:5,13; 15:36-39, a Marc yn Colosiaid 4:10; Philemon 24; 2 Timotheus 4:11 a 1 Pedr 5:13. Cafodd ei fagu yn Jerwsalem (Actau 12.12), roedd yn gefnder i Barnabas (Colosiaid 4.10), ac yn gynorthwywr i Paul a Barnabas ar un adeg.

Diwinyddion ac nid haneswyr yw awduron yr efengylau. Gwneud pwyntiau diwinyddol mae Marc wrth ddweud stori Iesu yn y modd mae'n gwneud hynny. Cenedl-ddynion, hynny yw pobl nad oedden nhw'n Iddewon, yw'r gynulleidfa sydd ganddo mewn golwg, pobl sydd eisoes wedi troi at Grist, pobl sydd wedi profi erledigaeth neu weld eu cyd-gredinwyr yn cael eu herlid. Mae'n ysgrifennu yn ail hanner chwedegau'r ganrif gyntaf, rhwng tân mawr Rhufain yn 64 O.C. a dinistrio'r Deml yn Jerwsalem yn y flwyddyn 70.

Mae Iesu'n cael ei bortreadu fel dyn sy'n gweithredu, mae'n awdurdodol, mae'r gallu ganddo i iachau, mae'n maddau pechodau. Mae'n disgrifio'i hunan fel “Mab y Dyn” a ddaeth i roi ei fywyd er mwyn rhyddhau pobl o'u pechod. Dyfodiad Teyrnas Dduw yw calon pregethu Iesu, a'r angen i edifarhau.

Ar ôl prolog byr (Ioan Fedyddiwr, y bedydd a'r temtiad), mae Marc yn mynd yn syth at weinidogaeth Iesu. Yn raddol mae ei ddilynwyr yn dod i'w ddeall yn well, ond ar yr un pryd mae'r gwrthwynebiad iddo'n cynyddu. Mae 5 o'r 16 pennod yn canolbwyntio ar ddyddiau olaf Iesu cyn ei groeshoelio. Mae yna ddau ddiweddglo. Yn y llawysgrifau cynharaf mae'r llyfr yn gorffen ym mhennod 16 adnod 8. Ychwanegwyd adnodau 9-20 yn ddiweddarach gan awdur gwahanol.



Disgrifiwyd yr Efengyl yn ôl Marc fel “y llyfr Cristionogol pwysicaf a ysgrifennwyd erioed.”

At bwy yr awn, O! Fab y Dyn,
At bwy ond atat Ti dy Hun?
I ddwys gwestiynau dynol-ryw
Tydi, Tydi, yw ateb Duw.

(Elfed)

Rhagor o hiwmor o'r cwrdd

Pregethwr dychrynlyd o hir-wyntog yn ymddiheuro “Fedra i ddim gweld cloc y capel.” Diacon yn gofyn “Beth am y calendr ar y wal?”

~*~*~*~*~*~

Gweinidog yn ei gyfarfod ymadawol – “Cefais y fraint o'ch gwasanaethu am bedair blynedd ar ddeg ar hugain.” Diacon, dan ei wynt wrth ddiagon arall: “Mae hwn yn gwneud i 34 swnio fel tragwyddoldeb.”

~*~*~*~*~*~

**Mireille**


Mireille Fougère. Ffrances yn byw gyda'i mam a'i thad, ei chwaer Helène a'i mamgu mewn hen dŷ traddodiadol Ffrengig gyda'i lorïau cerrig a'i hen gelfi trwm ger tref Aix-les-Bains. Roedd gan y teulu fusnes bach gwneud dillad ac yn cyflogi rhai o ferched y pentref i wneud y gwaith ac yna gwerthu'r cynnyrch mewn marchnadoedd ar hyd a lled yr ardal. Y fam-gu oedd cogyddes y teulu a'r arlwy yn wladaidd flasu a maethlon.

Beth oedd y cysylltiad rhyngddo i â Mireille a'r teulu hwn? Bues i'n byw gyda'r teulu croesawus am dair wythnos i fireinio fy Ffrangeg pan oeddwn i yn y chweched dosbarth yn yr ysgol. Des i i'w nabad yn dda a chael fy nerbyn yn rhan o'r teulu. Daeth Mireille hithau yn ôl i aros gyda ni ym Mhontarddulais i wella'i Saesneg. Dw i'n credu iddi ddysgu mwy o Gymraeg na Saesneg! Mam druan yn gofidio na fyddai'n tŷ ni yn ddigon crand i rywun o Ffrainc. Deall wedyn bod mam Mireille wedi bod yn gofidio yn yr un modd mai llorïau cerrig oedd gyda nhw nid carpedi!

Bu Mireille a minnau'n gohebu'n gyson am flynyddoedd, ond rywsut peidiodd y llythyrau a chollais y cyfeiriad.

Ar ôl i ni gyrraedd Pentyrch roedd arna i flys i fynd am wyliau i "Aix" ac efallai ail-gysylltu â Mireille. Ond ble i ddechrau? Oedd hi wedi symud? Oedd hi wedi priodi? Beth oedd ei henw priodasol ac a oedd hi'n fyw hyd yn oed? Ifan gafodd y syniad o anfon e-bost at fwrdd croeso'r dref. Er mawr syndod i ni daeth ateb yn ôl gan ferch yn y swyddfa yn dweud mai hi oedd ffrind gorau Helène, chwaer Mireille, ac yn gwybod holl hanes y teulu. Gweddw oedd Mireille erbyn hyn ond yn dal i fyw yn Aix. Roedd Helène yn dal i fyw yn yr hen gartref gyda'i theulu a'i mam.

Roedd rhaid trefnu ail-gyfarfod - ddeugain mlynedd wedi'r dyddiau ysgol (ac ugain mlynedd yn ôl bellach). Roedd yn gyfarfod bythgofiadwy; y ddwy ohonon ni mor falch i weld ein gilydd eto a chael hel atgofion melys iawn. Yna trefnu i fynd i gwrdd â gweddill y teulu. Roedd hi gymaint o bleser i fod yn eu cwmni a gweld yr hen dŷ unwaith eto. Mwy o hel atgofion! Cofio am daith i Chamonix, bwyta bwyd dieithr fel yr ymennydd mochyn roedd y fam-gu wedi'i goginio, mynd i'r marchnadoedd a chael hwyl wrth geisio cyfathrebu gyda'r bobl.

**Yr aduniad****Lein-yp y deugain mlynedd**

Yn fy meddiant ers fy ymweliad cyntaf roedd yna lun bach dua gwyn tua dwy fodfedd sgwâr o'r ddwy chwaer, eu mam a minnau o flaen y Renault bach oedd ganddyn nhw. Felly, dyna geisio ail-greu'r olygfa, ddeugain mlynedd yn ddiweddarach.

Roedd mam Mireille wrth ei bodd. Doedd y Renault bach ddim i'w gael erbyn hyn ond roedd pawb o'r cast ynghyd!

Erbyn hyn, roedd y ffatri fach gwneud dillad wedi datblygu'n fusnes llawer mwy ac Helène a'i gŵr yn berchen ar lorïau mawr gydag ystafelloedd newid a tho cynfas anferth yn agor fel adenydd pili-pala ar gyfer gwerthu mewn marchnadoedd. Fe ges innau fentro ar y gwerthu ac ystwytho tipyn ar fy

**Yr arch farchnad ddillad**

Ffrangeg! Tybed a ddaw cyfle cyn bo hir i ymweld â'r teulu a phrofi'r croeso eto yn Aix-les-Bains?

Hen Luniau o'r Teulu

Boddi fy hun yn y lluniau.
Popeth ar sgwariau papur.
Diwrnod dyrnu,
Babis a hen bobol
Yn gwenu'n llon mewn du, gwyn a llwyd.
Hen ast addfwyn, lluniau 'steddfod,
Gwyliau, dyddiau galar,
Hostel a chastell,
Llanciau ysgol, eraill yn cysgu,
Hen lun o Mam ar lan y môr
A fi fel babi bach...

Lluniau llonydd.
Rhywun 'di rhewi,
Enaid yn gwenu.
Delweddau bywydau byw...
I gyd wedi'n gadael.

Priodas Camilla ar Radio Cymru

Ma' Gary a'i eirie diddiwedd
yn sôn am ei gwisg hi bob modfedd.
Y manylion blodeuog,
mae ei lais e yn driog.
Fe ges i lond bol yn y diwedd.

Martin Huws

Hedfan

Lan fanna
heddi
mae'n dawl,
lan fanna 'nawr
dim llygredd llinell wen,
lan fanna
dim ond erwau glas yr awyr.

Ond,
mae adenydd,
mae hedfan,
mae codi a disgyn
heb rwygo'r glesni
heb rygni'r dydd.
codi a disgyn
aden fel ehedydd
yn fiwsig i glust.

Eto,
mae awyren,
yn glanio ar anadl yr awel,
yn glanio
ar faes o feidr,
awyrennau
di-sŵn
y sycamorwydden

Natur
yn esgyn a disgyn
fel erioed.

Hannah Roberts

***Awydd anfon cyfraniad
i'r
rhifyn nesaf o'r
Gair Bach?***

*Oes yna hanesyn neu stori hoffech chi
rannu gyda'ch cyd-aelodau ym
Methlehem?*

*Ewch ati – anfonwch air erbyn Gorff 1af:
tycnau@aol.com*

**ANFONWN
EIN
COFION**

**at bawb o'n cyd-aelodau
sydd wedi bod yn
wael yn ddiweddar.**

Gobeithio byddwch chi'n
cryfhau a chael
adferiad buan.